


Sbwriel a'r Amgylchedd

Gall sbwriel:



Ladd planhigion

Gall sbwriel achosi i blanhigion farw am lawer o resymau. Gall ai fod oherwydd dŵr daear llygredig, drwy fygu neu drwy newynu. Gall pobl yn tipio eitemau trwm yn anghyfreithlon drostynt hefyd olygu y caiff planhigion eu difrodi ac ni fyddant yn tyfu bellach. Mae angen planhigion arnom, nid yn unig er mwyn i'n strydoedd edrych yn bert, ond mae planhigion hefyd yn rhoi ocsigen i'r atmosffer. Hefyd mae planhigion yn gartrefi ar gyfer llawer o wahanol fathau o fywyd gwylt, felly bydd rhaid iddynt ddod o hyd i gartrefi newydd, neu ni fyddant yn goroesi o bosibl.

Dechrau tanau

Gall bonion sigarennau yn benodol arwain at danau'n dechrau, yn enwedig os nad yw pobl yn eu diffodd cyn eu taflu ar y llawr. Gall sbwriel mwy fflamadwy, megis papurau newyddion a chardfwrdd, hefyd fod yn ysgafn ac felly gallant beri i danau ledu'n gyflymach.



Achosi llygru dŵr daear

Os aiff cemegau i mewn i'r dŵr daear, gall hyn achosi llawer o broblemau yn yr amgylchedd. Yn ogystal â lladd planhigion, gall fynd i mewn i'r afonydd a lladd pysgod ac adar sy'n byw ger y dŵr. Mewn achosion gwael, gall hefyd effeithio ar ddŵr yfed.

Achosi llifogydd

Gall sbwriel a deflir i mewn i'r strydoedd flocio draenau'n weddol gyflym. Os yw hyn yn digwydd ar yr un pryd â glaw trwm, gall llifogydd ddigwydd yn gyflym.

